**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: MA/HIDCC/2537/25

Andrew RT Davies, AS
Cadeirydd,
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
SeneddEconomy@senedd.wales

2 Rhagfyr 2025

Annwyl Andrew,

**Rheoliadau Cynhyrchion Bioleiddiadol (Cyfnodau Diogelu Data) (Diwygio) 2025**

Rwy'n cyfeirio at fy llythyr atoch dyddiedig 11 Tachwedd 2025. Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud Rheoliadau Cynhyrchion Bioleiddiadol (Cyfnodau Diogelu Data) (Diwygio) 2025 ("y Rheoliadau"). Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig a gallwch ei ddarllen yma Rheoliadau Cynhyrchion Bioleiddiadol (Cyfnodau Diogelu Data) (Diwygio) 2025.

Mae'r Rheoliadau yn gorgyffwrdd â pholisïau datganoledig ac maent yn gymwys i Gymru (maent yn gymwys hefyd i Loegr a'r Alban). Mae'r Rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol a chawsant eu gosod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig ar 25 Tachwedd 2025. Y dyddiad cychwyn yw 30 Rhagfyr 2025.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai offerynnau statudol sy'n ymwneud â materion datganoledig gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru, y tro hwn ystyrir ei bod yn briodol i'r Rheoliadau gael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol am y rhesymau a ddisgrifir yn fy llythyr dyddiedig 11 Tachwedd.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs